# Wythfed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad

## Laura Elliott

Cynhaliwyd wythfed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yng Nghynulliad Deddfwriaethol Columbia Brydeinig yn Victoria, Canada. Bûm yn ffodus i gael fy newis gan Gangen y Cynulliad Cenedlaethol o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) i'w cynrychioli yn y digwyddiad nodedig hwn ym mis Tachwedd 2016.

Mae Senedd Ieuenctid y Gymanwlad yn gyfle datblygu da i bobl ifanc rhwng 18 a 29 oed sy'n awyddus i ddilyn gyrfa mewn swydd gyhoeddus, neu sydd â diddordeb brwd mewn democratiaeth ddeddfwriaethol. Y dimensiwn ychwanegol sy'n gwneud y cyfle hwn mor arbennig yw'r ffaith eich bod, fel cyfranogwr, yn gweithio ochr yn ochr â phobl ifanc o bob rhan o'r Gymanwlad.

Ddydd Llun 7 Tachwedd ymunais â 60 o gyfranogwyr yn Siambr Ddeddfwriaethol Columbia Brydeinig. Roeddem yn cynrychioli canghennau wyth o naw o ranbarthau'r CPA – Affrica; Asia; Awstralia; Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir; y Caribî, Cyfandiroedd America a'r Iwerydd; Canada ac India a'r Môr Tawel.

Wythfed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad







Gyda'r Gwir Anrh. Llefarydd Reid

Roedd y Seremoni Agoriadol yn gyfle i ddeall y rhaglen a chael cyflwyniad ar yr hyn roedd disgwyl i ni ei wneud yn ystod yr wythnos. Ar ôl ein croesawu, cawsom gyflwyniadau gan Kate Ryan Lloyd, y Dirprwy Glerc; Mr Akbar Khan, Ysgrifennydd Cyffredinol y CPA; yr Anrhydeddus Linda Reid, Llefarydd Cynulliad Deddfwriaethol Columbia Brydeinig a Craig James, y Clerc. Roedd y seremoni hefyd yn cynnwys Bendith deimladwy gan yr Henuriad Mary Ann Thomas a darllenodd un o'n cyd-Seneddwyr Ieuenctid, Zoe

Duhaime, ddarn o farddoniaeth.

Wedi i’r Seremoni Agoriadol ddod i ben, rhoddodd Kate Ryan Lloyd gyflwyniad ar brif weithdrefnau Senedd Ieuenctid y Gymanwlad. Er bod Cynulliad Deddfwriaethol Columbia Brydeinig yn dilyn model seneddol San Steffan, roedd yn sesiwn ddefnyddiol iawn i'n paratoi ar gyfer yr wythnos.

Roeddem wedi cael pecynnau gwybodaeth yn ymwneud â ***Chymanwlad,*** y wlad ffuglennol roeddem yn perthyn iddi a phroffiliau plaid ar gyfer y Llywodraeth a'r Wrthblaid. Cyn cyrraedd, dylai’r cynrychiolwyr fod wedi cael y proffiliau plaid ac wedi nodi i ba un yr hoffent fod yn aelod ohoni ond, yn anffodus, oherwydd problemau technegol, nid oedd pawb wedi cael y wybodaeth felly cawson ein rhoi yn y naill blaid neu’r llall. Cefais i fy rhoi yn y Llywodraeth ac, yn dilyn y sesiwn addysgol, cynhaliwyd ein cyfarfod Cawcws cyntaf yn Ystafell Bwyllgora Douglas Fir. Prif fusnes y cyfarfod oedd dewis ein Prif Weinidog, y Dirprwy Brif Weinidog a’r Chwip, ac roedd cyfle i ddatgan diddordeb mewn swyddi yn y Cabinet.




Yr enw a roddwyd ar ein plaid ni oedd y Blaid Flaengar ac etholwyd merched i swyddi’r Prif Weinidog a’r Dirprwy Brif Weinidog. Mynegais ddiddordeb ym mhortffolio’r Amgylchedd a chefais fy newis yn Weinidog yr Amgylchedd gan arweinwyr y blaid; roeddwn i’n awyddus i ymgymryd â'r rôl oherwydd fy nghefndir – rwy’n dod o deulu o ffermwyr ac yn cael fy nghyflogi’n awr i weithio ar brosiect yn ymwneud â thechnoleg adnewyddadwy. Aethom ati hefyd i baratoi areithiau yn ateb yr Araith o'r Orsedd a fyddai’n cael ei thraddodi’n ddiweddarach yn y prynhawn gan yr Anrhydeddus Rick Hansen, yr Is-lywodraethwr. Roedd mentor gan bob plaid (Aelodau Seneddol / Cynulliad Deddfwriaethol go iawn. dan 35 oed, o ddeddfwrfeydd y Gymanwlad) ac fe’n cynghorwyd gan ein mentor ni y dylai’n hymatebion gyfeirio at ein cyfranogiad yn y digwyddiad a chynnwys cyfarchion o’n mamwlad. Ar ôl i’r sesiwn ddechrau, daeth yn amlwg bod yr Wrthblaid wedi cael cyngor gwahanol; wrth iddyn nhw ymateb i’r Araith o’r Orsedd, aethant ati i feirniadu’n polisïau ac i daflu cwestiynau atom.  Os oedd unrhyw ansicrwydd ynglŷn

â faint o wrthdaro a fyddai yn ystod y trafodaethau, diflannodd yn syth yn ystod y sesiwn hon!

Treuliwyd gweddill y dydd mewn sesiwn Gawcws arall, yn cael tynnu llun wythfed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, yn paratoi ar gyfer y sesiwn Cwestiynau ac Atebion, ac yn cymryd rhan ynddi (profiad digon arswydus i mi, fel Gweinidog y Cabinet), yn gwrando ar y mentoriaid yn trafod rôl Aelodau Seneddol ac yn cyflwyno'n Mesurau cyntaf gerbron y Tŷ. Roedd Chwip ein plaid ni'n ardderchog a chawsom ein gwarchod yn aml gan 'Bwyntiau o Drefn' a nodiadau a drosglwyddwyd i lawr i'r Siambr yn esbonio sut y dylem fod yn pleidleisio. Cytunodd y pleidiau ar gonsesiynau y tu allan i'r Siambr ac yna cawsom gyfarwyddyd ynghylch beth fyddai safbwynt y blaid yn ystod y trafodaethau.



Diwrnod Un



Gweinidog dros Amddiffyn, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Chwip y Llywodraeth



Derbynfa yn Nhŷ'r Llywodraeth



Mewn sesiwn

Yn ystod ail ddiwrnod y rhaglen, prif fusnes y dydd oedd ail ddarlleniad y Ddeddf Prentisiaethau a Interniaethau i Bobl Ifanc, sef y Mesur a gyflwynwyd y diwrnod blaenorol. Cafodd Seneddwyr Ifanc ar y ddwy ochr yn y Tŷ gyfle i siarad am y Mesur a manteisiais ar y cyfle i siarad am fy mhrofiad i o'r byd addysg a chyfleoedd gwaith i bobl ifanc yng Nghymru, a pha mor bwysig rwy'n teimlo yw addysg anffurfiol a sgiliau meddal o ran creu unigolion cyflawn a chyflogadwy y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Roedd yn ddiddorol iawn clywed Seneddwyr Ifanc eraill yn siarad am eu

profiadau nhw, er bod yr areithiau'n tueddu i gyflwyno safbwyntiau a oedd o fewn bywyd ein "Cymanwlad".

Yn ystod amser cinio ar yr ail ddiwrnod, cawsom gyflwyniad gan David Spence, Llywydd Cangen Ynys Vancouver o Gymdeithas Frenhinol y Gymanwlad. Roedd yn sgwrs ddiddorol iawn ac ychwanegodd at y gwerth roeddem yn ei phriodoli i'r profiad hwn, rhywbeth a ddaeth yn gliriach wrth i'r wythnos fynd rhagddi. Treuliwyd prynhawn dydd Mawrth yn parhau i drafod yr ail ddarlleniad o'r Ddeddf Prentisiaethau a Interniaethau i Bobl Ifanc ac mewn sesiwn Gawcws yn paratoi ar gyfer Pwyllgor y Senedd Gyfan a'r Gwelliannau.

Gyda'r nos, cawsom swper gyda'n gilydd gan wylio canlyniadau Etholiad Arlywyddol yr Unol Daleithiau – roedd yn brofiad swreal ac roedd yr awyrgylch yn eithaf tawedog wrth i'r canlyniad ddod yn fwy amlwg. Roedd datganiadau'r Seneddwyr Ifanc drannoeth yn cyfeirio'n aml at yr angen i barhau i frwydro dros ryddid i lefaru a chydraddoldeb; gan gondemnio hiliaeth, homoffobia, rhywiaeth a gwahaniaethu. Yn ystod sesiwn y bore roeddem yn teimlo nad dim ond ychydig o filltiroedd oedd yn ein gwahanu ni a'r Unol Daleithiau.


Sesiwn Prynhawn – Diwrnod Tri

Ddydd Mercher, cawsom sesiwn addysgol gan yr Aelodau Cynulliad Deddfwriaethol a chynrychiolwyr y wasg leol a fu'n trafod pwysigrwydd y cyfryngau mewn gwleidyddiaeth a sut y mae'r berthynas yn gweithio fel arfer. Ar ôl y sesiwn hon, cynhaliodd y ddwy blaid gynhadledd ffug i'r wasg. Ac eithrio penderfyniad ein Gweinidog dros Faterion Cynhenid i gyhoeddi polisi newydd sbon, llwyddodd pawb i ymdopi'n dda â'r achlysur ac i gynnwys ychydig o hiwmor hyn yn oed yn rhai o'n hatebion. Wrth baratoi gyda'n mentoriaid, defnyddiwyd yr ymadrodd 'chwarae'r gêm' cryn dipyn. Sesiwn weithdrefnol fwyaf cymhleth yr wythnos oedd sesiwn y Pwyllgor y Cyfan. Y Seneddwyr Ifanc arweiniodd y sesiwn, ac roeddem yn ffodus fel y Llywodraeth fod

gennym gynrychiolydd a oedd wedi cymryd rhan yn un o'r sesiynau hyn o'r blaen. Roedd yn ymwneud â derbyn neu gynnig gwelliannau i'r Mesur, a hynny gam wrth gam, gydag awgrymiadau gan y ddwy blaid yn y Siambr. Roedd yr holl gynrychiolwyr yn bresennol ac roedd rhwydd hynt i unrhyw un gyfrannu at y sesiwn. Roedd yn gipolwg gwych ar y camau sy'n rhan o'r broses o basio Deddf ond byddai wedi bod yn fuddiol cael mwy o amser, fodd bynnag, i wyntyllu'r holl fanylion gan y bu'n rhaid cyfaddawdu cryn dipyn ar eiriad y Mesur oherwydd bod amser yn brin.



Gyda'r Is-Lywodraethwr, Judith Guichon

Nos Fercher, cawsom ein cludo i Dŷ'r Llywodraeth ar gyfer y Cinio i gloi wythfed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad. Judith Guichon, Is-lywodraethwr Columbia Prydeinig oedd yn cynnal y cinio. Fe'i penodwyd yn 2012 a hi yw is-gynrychiolydd brenhinol Brenhines Elisabeth II yng Nghanada yn Nhalaith Columbia Prydeinig. Roedd yn anrhydedd fawr iawn bod yng nghwmni'r Is-lywodraethwr ac yn fuan ar ôl cyrraedd, clywsom mai rhai o'r ymwelwyr mwyaf diweddar oedd Dug a Duges Caergrawnt.

Roeddwn wrth fy modd ar ôl cael fy nghyflwyno fel y cynrychiolydd o Gymru, pan oleuodd llygaid yr Is-lywodraethwr gan ddweud mai fi oedd yr unig gynrychiolydd a oedd wedi sôn yn fy mywgraffiad fod gennyf ddiddordeb mewn Amaethyddiaeth. Cyn ei phenodi, roedd yn berchen ar fferm wartheg fawr. Yn ystod y noson, cawsom anerchiad gan Brif Weinidog ac Arweinydd yr Wrthblaid, Llefarydd y Tŷ'r a'r Is-lywodraethwr. Darllenodd Jabari Lynch, o Drinidad a Tobago, gerdd emosiynol tu hwnt a lwyddodd i gyfleu ysbryd yr wythnos yn berffaith, yn cymharu'r cynrychiolwyr â chynwysyddion powlen o gawl – pob un yn wahanol, ond yn cyfuno i greu rhywbeth arbennig.

Cyfarfod yn Nhŷ'r Llywodraeth gyda Judith Guichon



Roedd ein diwrnod olaf yn fyr iawn ac yn cynnwys sesiwn holi, a oedd ychydig yn fwy hwyliog ac, fel Llywodraeth, defnyddiwyd y dacteg 'filibuster' a siarad cyn hired â phosibl wrth ateb er mwyn

rhwystro'r wrthblaid rhag gofyn mwy o gwestiynau. Byddwn wedi chwerthin pe baech wedi dweud wrthyf ar ddechrau'r wythnos y byddwn yn chwarae am amser, yn malu awyr am Dreth Garbon yn y Siambr! Roedd yr areithiau clo'n cynnwys anerchiad gan yr Anrhydeddus Ingrid Moses-Scatliffe, Llefarydd Tŷ'r Cynulliad yn Ynysoedd y Wyryf lle caiff nawfed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad ei chynnal y flwyddyn nesaf. Dyma pryd y dechreuais deimlo'n siomedig ac yn drist oherwydd bod ein Senedd ni'n dod i ben, ac y byddai carfan newydd o gynadleddwyr yn elwa o'r digwyddiad a'r profiad gwych hwn y flwyddyn nesaf.

Tu fewn i'r Siambr



Roeddwn yn sylweddoli na fyddwn yn llawn werthfawrogi cymaint o brofiad roeddwn i wedi'i gael nes y byddwn yn dychwelyd adref. Ar ôl cael cyfle i feddwl am y Senedd Ieuenctid, mae'n amlwg i mi mai dim ond unwaith mewn oes y mae cyfle fel hyn yn codi, a byddaf yn ei drysori am byth. Byddai'n anodd iawn creu'r un math o brofiad ymarferol o'r system seneddol ac o weithio gyda phobl ifanc o'r un anian a chanddynt gefndiroedd a phrofiadau bywyd mor wahanol. Mae dyfodol y Gymanwlad mewn dwylo diogel iawn o ystyried safon y rhai a oedd yn bresennol yn wythfed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad a gobeithio y bydd y Cynulliad yn barod i hybu trafodaeth agored wrth i ni sefydlu ein Senedd Ieuenctid ein hunain.

Mae strwythur pendant iawn i raglen Senedd Ieuenctid y Gymanwlad ac roedd yn eithaf anodd asesu'r strwythur yn y gwahanol wledydd yn ystod yr wythnos wrth i chi fabwysiadu persona'ch plaid a phroffil eich plaid. Mae Ynysoedd y Falklands, sy'n rhan o Ranbarth yr Ynysoedd Prydeinig a Môr y Canoldir, mewn sefyllfa debyg i Gymru, ac wedi ymrwymo i sefydlu Senedd Ieuenctid a bydd gwledydd eraill hefyd yn archwilio'r syniad ar ôl gweld llwyddiant Senedd Ieuenctid y Gymanwlad.




Tu allan i'r adeilad

O ran yr amcanion ar gyfer Senedd Ieuenctid Cymru, y penderfyniad y bydd angen ei wneud gyntaf, yn fy marn i, yw penderfynu ynghylch yr ystod oedran. Yn fy marn i, dylai fod yn is na 18 oed, er mwyn adlewyrchu safbwyntiau pobl ifanc na allant gymryd rhan o dan ein system bleidleisio bresennol. Yna, dylid pennu uchafswm oed – 29 yw hwn yn Senedd Ieuenctid y Gymanwlad, 25 yn Senedd Ieuenctid yr Alban a 21 yn y Senedd Ieuenctid Columbia Brydeinig.

Yna, mae angen penderfynu sut y byddem yn penodi aelodau i'n Cynulliad Ieuenctid – etholiadau gwirioneddol sy’n cyd-fynd â’r etholaethau ynteu geisiadau am nifer gyfyngedig o swyddi – gallai sefydliadau ieuenctid presennol enwebu cynrychiolwyr. Y prif gwestiwn fyddai diben y Cynulliad Ieuenctid: a fyddai'n gallu cyfrannu at ddeddfwriaeth go iawn yng Nghymru, neu ai cynnig profiad i bobl ifanc fyddai’r nod er mwyn ceisio ennyn diddordeb mwy o bobl ifanc mewn gwleidyddiaeth? Rwy’n disgwyl y bydd natur y Cynulliad Ieuenctid yn dibynnu ar y gyllideb a'r adnoddau a fydd ar gael iddo. Edrychaf ymlaen at drafod y cwestiynau hyn yn fanylach gyda'r Llywydd a Rhun ap Iorwerth AC, Cadeirydd Cangen Cymru o'r CPA. Hoffwn nodi fy mod i, fel cynrychiolydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wedi cael cynnig cymorth gan Aelodau o Seneddau Ieuenctid Columbia Brydeinig a'r Alban ar ffurf astudiaethau achos yn ymwneud â’u profiadau ac arfer gorau. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu ein Senedd Ieuenctid yng Nghymru.

Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a'i Changen o’r CPA am gydnabod pa mor bwysig yw’r digwyddiad hwn ac am anfon cynrychiolydd o Gymru. Rwy'n teimlo'n hynod o ffodus i mi gael fy newis a byddwn yn sicr yn annog eraill i fanteisio ar y cyfle mewn blynyddoedd i ddod.